Chwilio am Gymry yn America? gan Dafydd Wigley

(Llywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Llywydd Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd)

Bydd aelodau o Gymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd yn gyfarwydd, o erthyglau blaenorol, o'm cysylltiadau teulu yn yr Unol Daleithiau. Rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i etifeddu achau teulu manwl o waith Richard Bennett. Roedd hyn yn rhoddi i mi man cychwyn ardderchog i wneud mwy o ymchwil fy hun. Trwy help amryw o berthnasau ac yn arbennig Carwen Fychan (Wigley gynt), llwyddais i ddysgu mwy am fy nheulu dros yr Iwerydd. O ganlyniad, cefais gyfarfod llawer ohonynt yn America a bu rhai drosodd i Gymru i'n gweld.

Un o'm perthnasau yw Paul Wigley, mab y diweddar Seneddwr Richard Wigley, Minnesota. Mae Paul yn un o arweinyddion y mudiad "Barber Shop Music" yn America ac yn athro cerddoriaeth ger Minneapolis. Mae wedi bod draw sawl gwaith pellach, gan gynnwys dod â chôr ei ysgol i gynnal cyngerdd yng Nghaernarfon yn 2006.

Pan ddaeth Paul drosodd am y tro cyntaf ynghyd a'i wraig Becky, croesawais hwy yn Nhy'r Cyffredin. Dros baned o de, dywedodd Becky ei bod hi, hefyd, yn meddu ar gyndeidiau Cymreig. Rhoddodd i mi enw perthynas oedd yn byw yng Ngheredigion yn y bedwerydd ganrif ar bymtheg. Gofynnodd a oedd unryw bosibilrwydd y gallwn ganfod a oedd ganddi deulu yn dal i fyw yng Nghymru. Dipyn o sialens!

Cysylltais a'm cyfyrdres, Caerwen Fychan: roedd ei gwr Cledwyn yn gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol, ac yn ymddiddori mewn hanes teulu. Erbyn i Becky a Paul gyrraedd Aberystwyth, roedd Cledwyn wedi canfod gwreiddiau Cymreig Becky; nid yn unig hynny, roedd yn gallu deud wrthi ei bod yn perthyn i'r Prifardd W. D. Williams, Bermo; ac felly wrth gwrs fod ganddi gefndryd adnabyddus yn byw yng Ngyhymru, sef Iolo ac Iwan Williams, meibion y diweddar Brif-fardd.

Dyna pryd y deuthum innau i sylweddoli faint o adnodd ryfeddol sydd gennym yng Nghymru gyda'n Llyfrgell Genedlaethol. Yn wir, mae'n gwneud gwaith arloesol ym maes hanes teulu. Ychydig a feddyliais pryd hynny y byddwn yn dod yn Lywydd y Llyfrgell o fewn degawd.

Gyda hyn yn gefndir, go brin y bydd darllenwyr yn rhyfeddu mai at y Llyfrgell y byddwn yn cyfeirio pobl wrth iddynt ymchwilio i'w teulu yn America. Yn amlwg, nid yw staff y Llyfrgell yn gallu gwneud y gwaith ymchwil manwl ar ran pawb yng Nghymru! Ond maent yn gallu cyfeirio pobl i ffynonellau posibl i hyrwyddo'r ymchwil.

Felly, yn y rhifyn hwn o "Gwreiddiau Gwynedd" sy'n canolbwyntio ar gysylltiadau teuluol y mae aelodau o Wynedd yn ceisio eu canfod yn America, y peth naturiol i mi ei wneud oedd i holi Beryl Evans, Cydlynydd Hanes Teulu y Llyfrgell Genedlaethol. Gofynais iddi am y casgliadau mwyaf perthnasol sydd gennym yn Aberystwyth, i gynorthwyo trigolion Gwynedd sydd eisiau gwneud eu hymchwil eu hunain ynglyn a'u cysylltiadau teuluol dros yr Iwerydd. Roeddwn eisiau arweiniad am fwy na'r wybodaeth amlwg - cofnodion geni, priodi, marw, cyfrifiadau, cofnodion plwyf, ewyllysiau, a rhestri teithwyr ar longau oedd yn hwylio i America. Mae pawb sydd o ddifri am hel achau eisioes yn gwybod am rhain. Yn garedig iawn, darparodd Beryl Evans restr sylweddol o'r bocsus mwyaf perthnasol, ac rwyf yn ddiolchgar iawn iddi am ei help. Rwyf wedi dethol o blith y rhestri a dderbyniais ganddi ac yn crynhoi isod yr hyn sy'n ymddangos o ddiddordeb uniongyrchol i'r darllenwyr.

Ymhlith yr adnoddau sydd ar gael yn Aberystwyth, drwy'r Llyfrgell Genedlaethol, mae mynediad i Ancestry Library sy'n cynnwys nifer helaeth o'r cronfeydd data perthnasol. Ond mae na gasgliadau mwy unigryw hefyd. Er engraifft, yn ystod yn pum mlynedd diwethaf, gwnaed gwaith sylweddol ar gasglu gwybodaeth am y Cymry a ymfudodd i Ohio. Mae gwybodaeth am Prosiect Cymru/Ohio i'w gael ar y safle Wê http://ohio.llgc.org.uk/

Un o'r ffynhonellau mwyaf gwerthfawr yw'r defnyddiau a gedwir fel " Casgliad Bob Owen, Croesor". Mae rhain i'w canfod yn y Llyfrgell Genedlaethol yn BOCS 31 sydd a'r teitl "DEUNYDD YN YMWNEUD AG YMFUDO". Mae rhagor o ddefnyddiau i'w cael hefyd yn BOCS 42 a 43 yn y Llyfrgell..

Mae Bocs 31 yn cynnwys cynifer a 32 o eitemau a gasglwyd gan Bob Owen. Mae Bocs 42 a 43 yn cynnwys 25 o eitemau eraill o gasgliad Bob Owen. Ar ben hyn mae nifer o eitemau perthnasol yng nghasgliad llawysgrifau y Llyfrgell Genedlaethol.

Rwyf wedi dethol isod rhai o'r eitemau, gan osod mewn print trwm y rhai sydd yn ymwneud yn fwyaf uniongyrchol a Gwynedd. Gallaf ddarparu'r rhestr llawn pebae cais am hynny.

O bapurau Bob Owen:

Bocs 31

31/3
'Ymfudiaethau i'r UDA'; ffynonellau cysylltiedig ag ymfudo
31/4
Drafft penodau ysgrif ar ymfudo a nodiadau.
31/5
Llyfr ysgrifennu yn cynnwys 'Welsh Emigrants or planters or slaves sent to Virginia c. 1697-1700 from Liverpool'; ynghyd â dau lythyr o Lerpwl yn ymwneud â'r uchod.
31/6
'Ymfudwyr i Virginia a Maryland yr America ar y llong "Lamb", Lerpwl, 8th Medi 1699. Ynghyd a llythyr gan y Copiydd Robert Roberts, Bodhyfryd, Fflint, 23/11/1937'.
31/8
Ymfudwyr o Ddolgellau, gan gynnwys Brithdir.
31/9
'Y Cefndir' i ymfudo, a nodiadau ar yr ymfudo, 23 tt.
31/10
'Ymfudwyr Meirionydd i'r America, 1631-1860, ynghyd a eu cyfraniad i ddatblygiad y wlad honno'
31/17
'Sir Gaernarfon a'r America hyd y fl. 1860'.

Bocs 42

42/6
'Emigration from Caernarvonshire to the United States of America from 1790 to 1860 with some references to sailing ships which embarked from Caernarvonshire ports.
42/7
'Ymfudiaethau i'r America o Lŷn', (llyfr ysgrifennu).
42/8
'Llyn ac America: enwau'r ymfudwyr a chrynodeb (Defnydd anerchiadau Bob Owen yn Llŷn)', (papurau rhydd).

42/11
'Grwpiau o ymfudwyr o wahanol rannau yn myned efo'i gilydd', (llyfr ysgrifennu).
42/13
Nodiadau bywgraffyddol ar ymfudwyr, (llyfr ysgrifennu).
42/17
Rhestri o ymfudwyr o wahanol siroedd Cymru i'r Unol Daleithiau, (papurau rhydd).

Bocs 43

43/5-7
'Ymfudiad o Gymru i'r Unol Daleithiau rhwng 1760 a 1860' gan 'Iseryri' (Bob Owen) buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol 1944 . Tair cyfrol deipysgrif.

O Gasgliad Llawysgrifau y Llyfrgell Genedlaethol

NLW Ms 2703F
Genealogical miscellanea, mainly relating to Merioneth Quaker families and their descendents in Pennsylvania and elsewhere and letters 1891-1913.

NLW Ms 2722E
Transcripts of letters 1816-18 written to relatives in Merioneth - David Jones, Albany, New York), John Richards (Johnsburgh, New York) Hugh & Catherine Thomas (Trenton, Oneida) and W Thomas (Utica)

NLW Ms 6478E
Correspondence and papers of the Williams family, Plas yn Blaenau, Llanrwst, letters from family members in America, 1845-63.

NLW Ms 9521A
'America: neu amrywiaeth o nodiadau am yr Unol Dalieithiau . . .' gan R D Thomas, Iorthyn Gwynedd.

Y Llyfrgell Genedlaethol yw'r adnodd mwyaf allweddol yng Nghymru i'r rhai sy'n olrain hanes teulu ac mae'r wybodaeth sy'n berthnasol i gysylltiadau teuluol a'r America yn amlwg yn eithriadol bwysig. Mae gwaith hynod wedi ei wneud wrth greu'r archif Cymru-Ohio a gobeithir – os daw adnoddau pwrpasol – y gwelir waith cyffelyb yn ymwneud a'r cysylltiadau Cymreig yn Pennsylvania, Wisconsin a Minnesota. Cwblhawyd y gwaith efo'r cyfeillion yn Ohio drwy haelioni rhyfeddol Evan ac Elizabeth Davis, Oak Hill, Ohio a gyfranodd swm sylweddol iawn, iawn tuag at y gwaith. O gofio'r wasgfa ariannol sydd heddiw'n bygwth gwaith y Llyfrgell, mae'n debyg y bydd rhaid gobeithio am gefnogaeth gan gyfeillion eraill sy'n awyddus i weld prosiectau cyffelyb yn symud ymlaen yn y taleithiau hyn, ac efallai eraill, yn y dyfodol.

***** Mae aelodaeth o'r Llyfrgell Genedlaethol a mynediad i'r casgliadau (gan gynnwys 'Ancestry') yn rhad ac am ddim i bawb.** ■

Searching for the Welsh in America

The National Library of Wales, based in Aberystwyth, is the most valuable resource we have for those seeking to explore family links within Wales and to trace links with those who have emigrated to America. Dafydd Wigley is President of the National Library, as well as being President of the Gwynedd Family History Society.

The President recalls, in the article, how the wife of a relative of his, on holiday in Wales, stated that she had partial Welsh descent, naming a nineteenth century forebear. Within days the National Library had identified her family and were able to inform her of two cousins living in Wales.

Amongst the resources available through the National Library at Aberystwyth is access (only available on site) to the Ancestry Library, which contains a significant number of relevant sources for those researching their family links.

There are also unique collections in the Library. The article makes reference to the papers of the late Bob Owen, Croesor who did considerable research into emigration from Wales, particularly to the United States. It highlights several boxes of papers held at the National Library which may be of specific interest to those researching families who emigrated from Gwynedd to America.

The article also refers to certain of the many manuscripts held by the National Library which may be relevant to researchers. The President thanks Beryl Evans, Family History Co-ordinator at the National Library, for identifying these sources for our magazine.

One high-profile research project, recently completed, will be of interest to those with family links in Ohio. It is the Wales-Ohio project, which can be accessed at http://ohio.llgc.org.uk/

This project was possible through the immense generosity of Evan and Elizabeth Davis, of Oak Hill, Ohio. The National Library hopes in future to be able to undertake similar projects in Pennsylvania, Wisconsin and Minnesota. This however, will only be possible – given the present financial climate in which the Library is facing major cash cutbacks – if other generous donors, from Wales or America, come forward to help facilitate the work.

***** Membership of the National Library and access to it's collections (including 'Ancestry') are free of charge to everyone.** ■

Memorial
University of Newfoundland

Members wishing to research the maritime activities of their ancestors may well find that they have to make contact with the **Memorial University of Newfoundland**. When the UK authorities decided that they no longer wished to retain various shipping records a few County Archives accepted records of local relevance. Fortunately for historians the Memorial University provided a safe home for the remainder. Such records as Crew Lists and Certificates of Vessel Registry can now be accessed there.
Visit their website at http://www.mun.ca/mha or alternatively e-mail the University at mha@mun.ca for assistance. ■